COVID-19 Update: 10th June

In the latest COVID-19 update from Cardiff Council: guidance published to help schools, colleges and childcare settings; thousands of devices delivered as Cardiff responds to digital deprivation, particularly vital now, as blending learning is part of the new arrangements for schools; and 'Know, Look, Act', keeping children safe.

Guidance published to help schools, colleges and childcare settings

The Welsh Government has today published guidance for schools to plan for pupils to return from 29 June to "check in, catch up and prepare for summer and September".

The guidance, 'Keep Education Safe', provides practical and learning guidance on preparing schools for a phased return up to the end of the summer term, supporting settings to safely increase their on-site operations.

In each school there will be a phased approach. Year groups will be split into small groups with staggered starts and breaks. It is expected that this will mean, at most, a third of pupils present at any one time

The guidance for schools is divided into two sections: on operational matters and on learning. The guidance is supported by a Frequently Asked Questions page on the Welsh Government website, which will provide answers to common questions as they arise.

The Welsh Government is also publishing guidance for childcare settings today, to support the sector in opening up more widely and ensuring providers can operate safely.

Read more here:
https://gov.wales/education-coronavirus

The Council is undertaking careful planning around a series of measures which aim to respond to the challenges and issues relating to schools and other education providers, moving out of lockdown.

Cardiff's Restart Planning report details how schools could operate following lockdown sets out a series of processes and procedures which will aim to support schools, specifically so that they can ensure the safety of staff, pupils and parents and reduce the spread of the virus by operating in physically distanced environments.

Council measures will include:

- New health & safety procedures to include space capacity assessments and risk assessments to establish volume, appropriate furniture lay-out, movement flows and external spaces
- Hygiene and cleaning to establish a regime for hand washing, contact point cleaning and deep cleaning of school spaces

- Workforce capacity assessments to ensure adequate staffing and staff preparation and support to - identify and respond to the needs of staff including virtual health & safety training
- Identifying equipment and additional resources such as PPE and when it is required based on clear and informed advice
- Additional support for pupils and school staff around health & well-being, for example issues around family trauma as well as mental health issues relating to isolation
- Widening of pavements and pathways at some school sites to facilitate social distancing and prevent the need for vulnerable road users to step into the road
- Introduction of temporary 20mph limits on roads around schools where possible and consider temporary road closures at drop-off and pick up times

Regular updates will provide full details of the school arrangements as the 29th June opening date approaches.

Thousands of devices delivered as Cardiff responds to digital deprivation

Just under 6000 digital devices including Chromebooks and iPads have been distributed to children and young people in Cardiff who have been identified as digitally deprived. This is in addition to 1400 4G mobile broadband devices.

Through the establishment of a dedicated project team, the Council has worked with schools to determine exactly how many pupils require digital support and developed a range of ways to address the issue of digital deprivation so that children and young people can continue to access online learning during school closures.

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry said: "Ensuring that all children can access devices and internet connectivity is part of a long term strategy for Cardiff which was due to be put in place later this year but has been brought forward by the need during lockdown.

“Following Welsh Government’s announcement that education will need to be delivered through blended learning which combines online educational materials with traditional classroom methods, further strengthens the importance that all children need digital access going forward, even when schools reopen. This scheme will make a huge difference to the way children are taught and will make sure they continue to access good quality education.”

The scheme has been delivered by Cardiff Council funding, in partnership with Welsh Government’s Education Technology Project Fund, to support children in Cardiff that have been unable to access online learning during school closures caused by COVID-19.

Keep Children Safe at Home: Know, Look, Act

During lockdown it’s important to **know** that some children and young people may be being abused and exploited at home. They can be made to believe that they should

never tell anyone and that the abuse is their fault. Shut in with their abusers, they have little chance to escape or tell anyone.

These children need your help. As a neighbour or key worker visiting homes for any reason you may be the only person to spot abuse and report it.

Look out for these signs:

- Guarded behaviour around certain individuals
- Sudden changes in behaviour
- Children with bruises, burns, bite marks or fractures
- Children appearing withdrawn, anxious or frightened
- Hearing or seeing shouting or violence towards a child
- Children seen carrying or using drugs
- Children being late or arriving home late in different cars
- Unaccompanied children visiting a house where only adults live

Make sure to **act** on your concerns, even if you're unsure. In emergencies call 999.

For child concerns call the Multi-Agency Safeguarding Hub on 029 2053 6490.

For out of hours concerns call the Emergency Duty Team on 029 2078 8570.

Diweddariad COVID-19: 10 Mehefin

Yn y diweddariad COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd: canllawiau wedi'u cyhoeddi i helpu ysgolion, colegau a lleoliadau gofal plant; cyflwyno miloedd o declynnau wrth i Gaerdydd ymateb i amddifadedd digidol; a 'Gwybod, Gweld, Gweithredu', cadw plant yn ddiogel gartref.

Canllawiau wedi'u cyhoeddi i helpu ysgolion, colegau a lleoliadau gofal plant

Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i ysgolion er mwyn iddynt allu cynllunio i ddisgyblion ddychwelyd ar 29 Mehefin i "ailgydio, dal i fyny, paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi".

Mae'r canllawiau, sef 'Diogelu Addysg', yn rhoi cyngor ymarferol ac ar ddysgu ac addysgu er mwyn paratoi ysgolion ar gyfer dychwelyd yn raddol cyn diwedd tymor yr haf, gan gefnogi lleoliadau i gynyddu eu gweithrediadau'n ddiogel.

Bydd pob ysgol yn agor yn raddol. Bydd pob grŵp oedran yn cael eu rhannu'n grwpiau bach gydag amseroedd dechrau ac egwyl gwahanol. Bydd hyn yn golygu mai traean o'r disgyblion, ar y mwyaf, fydd bresennol ar y tro.

Mae'r canllawiau ar gyfer ysgolion wedi'u rhannu'n ddwy ran: ceir adran ar faterion gweithredol ac adran ar brofiadau dysgu. Ategir y canllawiau gan dudalen Cwestiynau Cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru, a fydd yn rhoi atebion i gwestiynau cyffredin wrth iddynt godi.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi canllawiau i leoliadau gofal plant heddiw, er mwyn helpu'r sector i agor yn ehangach a sicrhau bod darparwyr yn gallu gweithio'n ddiogel.

Darllenwch fwy yma:
https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws

Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwaith cynllunio gofalus i lunio cyfres o fesurau sydd â'r nod o ymateb i'r heriau a'r materion sy'n ymwneud ag ysgolion a darparwyr addysg eraill, yn symud allan o'r cyfnod cloi.

Mae adroddiad Cynllunio Ailgychwyn Caerdydd yn manylu ar sut gallai ysgolion weithredu yn dilyn y cyfnod cloi gan nodi cyfres o weithdrefnau a fydd â'r nod o gefnogi ysgolion, yn benodol i allu sicrhau diogelwch staff, disgyblion a rhieni a lleihau lledaeniad y feirws drwy weithredu mewn amgylchedd ymbellhau cymdeithasol.

Bydd mesurau'r Cyngor yn cynnwys:

- Gweithdrefnau iechyd a diogelwch newydd a fydd yn cynnwys asesiadau capasiti gofod ac asesiadau risg i nodi cyfaint, gosodiad celfi yn briodol, symud y llif a mannau allanol
- Hylendid a glanhau i bennu trefn golchi dwylo, glanhau pwyntiau cyswllt a glanhau mannau ysgol yn drylwyr
- Asesiadau capasiti gweithlu i sicrhau staffio priodol a pharatoi a chefnogi staff - i nodi ac ymateb i anghenion staff gan gynnwys hyfforddiant iechyd a diogelwch rhithiwr
- Nodi cyfarpar ac adnoddau ychwanegol megis cyfarpar diogelu personol a phryd y bydd yn ofynnol ar sail cyngor clir yn seiliedig ar wybodaeth
- Cymorth ychwanegol i ddisgyblion a staff ysgol ynghylch iechyd a lles, er enghraifft problemau perthnasol i drawma yn y teulu yn ogystal â materion yn ymwneud ag ynysu
- Estyn palmentydd a llwybrau ar rai safleoedd ysgol i hwyluso ymbellhau cymdeithasol ac atal yr angen i ddefnyddwyr y ffordd sy'n agored i niwed gamu ar y ffordd
- Cyflwyno cyfyngiadau 20mya dros dro ar ffyrdd o gwmpas ysgolion lle bo'n bosib ac ystyried cau ffyrdd dros dro yn ystod adegau gollwng a chodi plant

Bydd diweddariadau rheolaidd yn rhoi manylion llawn ar drefniadau ysgolion wrth i ddyddiad agor 29 Mehefin agosáu.

Cyflwyno miloedd o declynnau wrth i Gaerdydd ymateb i amddifadedd digidol

Mae bron 6000 o declynnau digidol gan gynnwys Chromebooks ac iPads wedi cael eu dosbarthu i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd sydd wedi cael eu hadnabod yn rhai sy'n dioddef amddifadedd digidol. Mae hyn ar ben 1400 o ddyfeisiau band eang 4G symudol.

Drwy sefydlu tîm penodol ar gyfer y project, mae'r Cyngor wedi gweithio gydag ysgolion i bennu faint yn union o ddisgyblion sydd angen cymorth digidol ac wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd o fynd i'r afael â phroblem amddifadedd digidol fel y gall plant a phobl ifanc barhau i ddysgu ar-lein pan fo'r ysgolion ar gau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cynghorydd Sarah Merry: "Mae sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad at ddyfeisiau a chysylltedd rhyngrwyd yn rhan o strategaeth hirdymor ar gyfer Caerdydd a oedd i fod i gael ei rhoi ar waith yn ddiweddarach eleni ond sydd wedi'i chyflwyno'n gynt yn sgil y cyfnod cloi.

"Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd angen darparu addysg drwy ddysgu cyfunol - cyfuniad o ddeunyddiau addysgol ar-lein a dulliau ystafell ddosbarth traddodiadol - yn ei gwneud yn bwysicach nag erioed bod gan bob plentyn fynediad digidol, hyd yn oed pan fydd ysgolion yn ailagor."

Mae'r cynllun wedi ei gyflawni drwy gyllid gan Gyngor Caerdydd mewn partneriaeth â Chronfa Project Technoleg Addysg Llywodraeth Cymru i gefnogi plant yng Nghaerdydd sydd wedi methu â dysgu ar-lein tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19.

Cadw Plant yn Ddiogel Gartref: Gwybod, Gweld, Gweithredu

Yn ystod y cyfnod cloi, mae'n bwysig **gwybod** y gallai rhai plant a phobl ifanc fod yn cael eu cam-drin a'u hecsbloetio gartref. Gall y camdrinwyr wneud iddynt gredu na ddylent byth ddweud wrth neb ac mai eu bai nhw yw'r cam-drin. Wedi'u cau i mewn gyda'u camdrinwyr, nid oes ganddynt fawr o gyfle i ddianc na dweud wrth neb.

Mae angen eich help ar y plant hyn. Fel cymydog neu weithiwr allweddol sy'n ymweld â chartrefi am unrhyw reswm, efallai mai chi fydd yr unig un i sylwi ar gamdriniaeth ac adrodd am y peth.

Os byddwch yn **gweld** yr arwyddion hyn:

- Ymddygiad gochelgar o amgylch unigolion penodol
- Newidiadau sydyn mewn ymddygiad
- Plant gyda chleisiau, llosgiadau, marciau brathu neu doresgyrn
- Plant yn ymddangos yn dawel, yn bryderus neu'n ofnus
- Clywed neu weld gweiddi neu drais tuag at blentyn
- Plant wedi cael eu gweld yn cario neu'n defnyddio cyffuriau
- Plant yn hwyr neu'n cyrraedd adref yn hwyr mewn gwahanol geir
- Plant ar eu pen eu hunain yn ymweld â thŷ lle mai dim ond oedolion sy'n byw ynddo

Cofiwch **weithredu** ar eich pryderon, hyd yn oed os ydych chi'n ansicr. Mewn argyfwng ffoniwch 999.

Ar gyfer pryderon plant ffoniwch yr Hyb Diogelu Amlasiantaeth ar 029 2053 6490.

Os oes gennych bryderon y tu allan i oriau, ffoniwch y Tîm Dyletswydd Brys ar 029 2078 8570.